

Gwneud Cymraeg yn Hawdd i'w Darllen a'i Deall

Cyflwyniad i Wybodaeth Gymraeg
Hawdd ei Deall a Chanllawiau Dylunio



Estyn Llaw

Datblygu Dwyieithrwydd
yn y 3ydd Sector

Developing Bilingualism
in the 3rd Sector



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Canllawiau Saesneg Hawdd ei Deall

Am I making myself clear? Mencap's guidelines for accessible writing
<http://november5th.net/resources/Mencap/Making-Myself-Clear.pdf>

How to make information accessible: a guide to producing easy read documents - *Change*

www.changepeople.co.uk/freebies-download.php?id=30

Making written information easier to understand for people with learning disabilities - *Department of Health*

www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh_121927.pdf

Diolchiadau

Ysgrifennwyd y ddogfen hon mewn partneriaeth gan Anabledd Dysgu Cymru a Mencap Cymru. Hoffem ddiolch yn fawr i bawb a roddodd o'u hamser i gyfrannu tuag at y canllawiau hyn ac yn arbennig i Emyr, Dafydd Emrys, Geraint a Lynwen am eu cyfraniad gwerthfawr. Diolch yn fawr hefyd i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru am ledaenu'r neges ymysg yr aelodau.

Anabledd Dysgu Cymru

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn fudiad aelodaeth sy'n gweithio gyda'i aelodau a'i bartneriaid i greu Cymru sy'n gwerthfawrogi a chynnwys pob plentyn ac oedolyn ag anabledd dysgu.



Ffôn 029 2068 1160 E-bost enquiries@learningdisabilitywales.org.uk
Gwefan www.learningdisabilitywales.org.uk

Mencap Cymru

Rydyn ni am i bobl ag anabledd dysgu a'u rhieni a'u gofalwyr yng Nghymru deimlo'r un mor werthfawr â phawb arall. Rydym ni am i bobl wrando arnynt a'u cynnwys. Mae ein prosiectau a'n gwasanaethau yn helpu pobl i leisio eu barn, dod yn fwy annibynnol, a dweud eu barn am ddyfodol eu cymunedau.



Ffôn 0808 808 1111 E-bost helpline.wales@mencap.org.uk
Gwefan www.mencap.org.uk/wales

Cefnogir gan Estyn Llaw a Bwrdd yr Iaith Gymraeg



Ffotograffau o Photosymbols 4
www.photosymbols.com



Contents

4	Gwneud Cymraeg yn Hawdd i'w Darllen a'i Deall
4	Beth yw dogfen Hawdd ei Deall?
5	Pam gwneud dogfennau yn hawdd eu deall?
6	Gwybodaeth Hawdd ei Deall a'r Iaith Gymraeg
7	Canllawiau Dylunio
7	Arddull y cwmni
7	Dyluniad dwyieithog
8	Y ddogfen gyfan
9	Y dudalen gyfan
10	Defnyddiwch luniau a graffigwaith
10	Geiriau anodd
11	Rhai enghreifftiau o Wybodaeth Hawdd ei Deall

Gwneud Cymraeg yn Hawdd i'w Darllen a'i Deall

Ysgrifennwyd y canllawiau hyn i gynnig cyngor a gwybodaeth i'r rhai sy'n mynd ati i:

- gyfieithu dogfennau Hawdd eu Deall o'r Saesneg i'r Gymraeg
- sy'n dymuno ysgrifennu eu dogfennau Cymraeg mewn ffordd sy'n haws i'w deall.

Mae canllawiau Saesneg ar gael sy'n amlinellu egwyddorion ysgrifennu a llunio dogfennau mewn ffordd "Hawdd i'w Deall" (gweler tudalen 2). Mae'r rhan fwyaf o ganllawiau yr un mor fuddiol ym mha iaith bynnag yr ysgrifennir y ddogfen Hawdd ei Deall. Er hynny, gan fod ieithoedd yn wahanol o ran elfennau gramadegol, cystrawen ac yn y blaen, mae angen ystyried hyn mewn perthynas â'r iaith a ddefnyddir. Bwriad y canllawiau yn y ddogfen hon yw ystyried y materion hyn mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.



Beth yw dogfen Hawdd ei Deall?

Mae dogfen hawdd ei deall wedi ei hysgrifennu a'i chyflwyno mewn ffordd sy'n haws i bobl ag anabledd dysgu ei darllen a'i deall. Mae'n ffordd o ddweud wrth bobl beth sydd arnyn nhw angen ei wybod.

Mae mwy i ddogfen hawdd ei deall na defnyddio iaith sy'n haws ei deall. Mae fersiwn hawdd ei deall o ddogfen yn canolbwyntio ar y prif bwyntiau yn y ddogfen ac ychwanegu eglurhad os bydd angen.

Mae dogfennau o'r fath yn haws i'w deall i bobl ag anabledd dysgu sy'n darllen ar eu pennau eu hunain neu gyda chefnogaeth gan fod ynddynt gyfuniad o:

- eiriau a phatrymau brawddegol syml
- delweddau i hybu dealltwriaeth
- diwyg hawdd ei dilyn
- golygu a dewis y pwyntiau pwysig
- esboniadau pellach.

Pam gwneud dogfennau yn hawdd eu deall?

Mae gan bobl ag anabledd dysgu yr un hawl â phawb arall i gael eu cynnwys a derbyn gwybodaeth ond mae llawer o ddogfennau yn cael eu hysgrifennu neu eu cyflwyno mewn ffordd sydd yn cau pobl allan am nad ydynt yn hawdd i'w deall. Golyga hyn nad yw pobl ag anabledd dysgu yn derbyn gwybodaeth sy'n bwysig iddynt.

Mae Gwybodaeth Hawdd ei Deall yn rhoi cymorth i bobl ag anabledd dysgu ddeall y materion pwysig a gwneud penderfyniadau gwybodus os oes angen.



Mae pob person ag anabledd dysgu yn wahanol ond mae rhai o'r anawsterau sy'n gyffredin iddynt o ran gwybodaeth ysgrifenedig yn cynnwys:

- **Gallu darllen.** Mae 8 allan o 10 o bobl ag anabledd dysgu yn ei chael hi'n anodd i ddarllen. Mae rhai pobl ag anabledd dysgu yn gallu darllen yn dda iawn, mae eraill yn cael anhawster ac angen cefnogaeth, ac eraill yn methu darllen o gwbl.
- **Anhawster i gofio.** Mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd cofio beth sydd wedi cael ei ddweud yn barod yn y ddogfen neu hyd yn oed ar yr un dudalen.
- **Deall cysyniadau.** Gall cysyniadau cymhleth neu haniaethol fod yn anodd i'w deall.
- **Canolbwyntio.** Gall brawddegau, paragraffau a dogfennau hir fod yn broblem i bobl sy'n cael anhawster i ganolbwyntio.
- **Nam ar y golwg.** Mae hyn yn bur gyffredin ymysg pobl ag anabledd dysgu.

Mae Gwybodaeth Hawdd ei Deall yn ffordd o leihau'r rhwystrau hyn.

Mae mudiadau yn cydnabod fwy a mwy bod angen cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd briodol i bobl ag anabledd dysgu. Ar wahanol adegau ym mywydau pobl ac mewn gwahanol sefyllfaoedd, mae cael gafael ar wybodaeth ystyrlon yn arbennig o bwysig, er enghraifft:

- cael gafael ar ofal iechyd
- defnyddio'r banc neu dalu biliau
- dod yn rhiant
- symud tŷ
- mewn ysgol neu goleg
- mewn gwaith
- delio â cheisiadau budd-daliadau
- ymgynghoriadau ynghylch gwasanaethau
- bod yn rhan o achosion llys/cyfreithiol.

Mae gwneud gwybodaeth yn hawdd ei deall yn ffordd y gall mudiadau barchu hawliau, barn, safbwyntiau ac ymrwymiad pobl ag anabledd dysgu.

Gwybodaeth Hawdd ei Deall a'r Iaith Gymraeg

Wrth ysgrifennu ar gyfer rhywun sy'n cael trafferth i ddarllen a deall dogfennau, mae'n bur amlwg bod defnyddio'r iaith y maent fwyaf cartrefol ynddi yn hanfodol.



Mae galluogi pobl i ddefnyddio'r iaith sydd orau ganddynt yn gyfraniad pwysig tuag at gael hawliau pobl wedi eu gwireddu; mae gwrthod gadael i bobl ddefnyddio'r iaith sydd orau ganddynt yn eu rhoi dan anfantais.

Mae'r pwysigrwydd o ddarparu gwasanaethau i bobl ag anabledd dysgu yn yr iaith sydd orau ganddynt yn cael ei amlygu yn yr adroddiad "Y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd" a ysgrifennwyd ar gyfer Cyngor Defnyddwyr Cymru.

*"Gall yr anawsterau sy'n wynebu'r fath bobl gael eu dwysáu'n ddiangen os y cânt eu gorfodi i gyfathrebu mewn iaith estron. Mae cryn dipyn o dystiolaeth anectodaidd fod siaradwyr Cymraeg gydag anableddau dysgu yn ymateb yn well i symbyliad trwy eu hiaith gyntaf."*¹

1 'Y GYMRAEG YN Y GWASANAETH IECHYD: Ehangder, Natur a Digonolrwydd Darpariaeth Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru'

Canllawiau Dylunio

Gall troi geiriau'n frawddegau sy'n hawdd i'w darllen a'u deall gael eu gwneud yn hyd yn oed haws i'w deall trwy ddilyn rheolau syml am osod patrwm a dylunio eich dogfen.

Gweler isod rai rheolau cyffredinol ynglŷn â gosod patrwm dogfen hawdd ei deall. Er hynny, os ydych yn gwybod ar gyfer pwy rydych chi'n ysgrifennu a'r ffordd y maent yn hoffi i bethau edrych, dilynwch eu canllawiau hwy a chynhyrchu dogfennau yn ôl eu cynllun arferol neu mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion hwy.

Y rheol gyffredinol ar gyfer dogfennau Hawdd eu Deall yw y dylai'r dyluniad fod yn syml, yn hytrach na'i wneud yn 'gelfydd' neu'n ffasiynol.



Arddull y cwmni

Efallai bod gan eich mudiad ei arddull ei hun ar gyfer dylunio dogfennau. Bydd yn rhaid i chi, wrth gwrs, ystyried y rhain wrth ddylunio neu osod patrwm i'ch dogfen ond peidiwch â gadael i arddull sydd eisoes mewn bod rwystro patrwm hawdd ei ddeall.

Dyluniad dwyieithog

Yr un rheolau a ddefnyddir ar gyfer gosod patrwm testun hawdd ei ddeall yn yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ond mae ychydig bwyntiau i'w hystyried wrth greu dogfennau dwyieithog.

Cofiwch y bydd yn debygol y bydd eich testun Cymraeg yn hwy na'r testun Saesneg.

Peidiwch â gwneud y testun yn llai neu ei wasgu'n dynn er mwyn defnyddio'r un faint o le gwag yn y Gymraeg ag yn y Saesneg. Ni fydd yn hawdd i'w ddarllen wedyn ac ni fydd y darllenwyr Cymraeg yn cael eu trin yr un fath â'r rhai Saesneg.

Ar gyfer dogfennau sydd mewn Cymraeg a Saesneg bydd arnoch angen ystyried y gosodiad gorau ar gyfer eich cynulleidfa. Gofynnwch i bobl ag anabledd dysgu beth sydd orau ganddynt.

Dyma rai dewisiadau i'w hystyried:

1. Dwy ddogfen gwahanol



2. Wyneb i waered



Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ddylunio dwyieithog yn 'Canllawiau Dylunio Dwyieithog: Bwrdd yr Iaith Gymraeg'². Mae'n bwysig i ystyried eich cynulleidfa wrth ddewis. Dewiswch un sy'n peri cyn lleied o ddryswch â phosibl.

Y ddogfen gyfan

Gwnewch y dudalen flaen mewn testun trwm ac esboniwch yn glir beth yw byrdrwn y ddogfen.

Ar gyfer dogfennau hir, cynhwyswch dudalen gynnwys syml a chlir ar y dechrau.

Defnyddiwch benawdau clir i dorri'r ddogfen yn rhannau bach.

Gwnewch eich penawdau yn amlwg trwy ddefnyddio pethau fel:

ffont mwy

ffont gwahanol

lliw

Byddwch yn gyson gydag arddull a maint y ffont; penderfynwch ar ffont a maint y testun ar gyfer y testun cyffredin a'r penawdau a defnyddiwch y rhain trwy gydol y ddogfen.

2 'Canllawiau Dylunio Dwyieithog: Bwrdd yr Iaith Gymraeg', 2009

Peidiwch a thanlinellu, defnyddio llythrennau *italig* na PHRIFLYTHRENNAU BLOC; gall y rhain i gyd wneud darllen yn anos.

Defnyddiwch rifau ar y tudalennau.

Y dudalen gyfan

Defnyddiwch gefndir gwyn plaen neu felyn golau y tu ôl i'r testun.

Peidiwch â gwrthdroi lliw y testun a lliw'r cefndir h.y. gwyn ar ddu.

Peidiwch byth â rhoi testun ar ben patrwm neu lun:



**Rhowch wybodaeth rydw
i'n gallu ei deall i mi.**



**Rhowch wybodaeth rydw
i'n gallu ei deall i mi.**



Defnyddiwch ffont sans serif fel **Arial**, **Verdana** neu **FS Mencap**³ (ffont sydd wedi ei chreu gan bobl ag anabledd dysgu). Verdana yw'r testun yn y ddogfen hon.

Sicrhewch bod maint eich ffont o leiaf Pwynt 14.

Sicrhewch bod y testun wedi ei alinio ar ymyl ochr chwith y dudalen a heb ei alinio ar yr ochr dde.

Sicrhewch bod lle gwag rhwng y testun a'r delweddau.

Sicrhewch bod bylchau rhwng pob paragraff.

3 <http://www.mencap.org.uk/node/6382>

Defnyddiwch luniau a graffigwaith

Defnyddiwch luniau i ddangos beth rydych chi'n ysgrifennu amdano.

Os yw'n bosibl defnyddiwch un llun am bob syniad neu frawddeg.

Mae llawer o wahanol fannau y gallwch ddod o hyd i luniau i'w defnyddio:



Photosymbols

www.photosymbols.com

Ffôn 0117 959 4424

E-bost ask@photosymbols.com



Change

www.changepeople.co.uk

Ffôn 0113 388 0011

E-bost info@change-people.co.uk



Valuing People Clip Art

www.valuingpeopleclipart.org.uk

Ffôn 0800 0430 980

E-bost info@inspiredservices.org.uk



Widgit Software

www.widgit.com

Ffôn 01926 333680

E-bost info@widgit.com

Rhowch y llun ar y chwith a'r testun ar y dde.

Ceisiwch osgoi defnyddio graffiau a siartiau.

Geiriau anodd


Defnyddiwch destun trwm i amlygu geiriau **pwysig** neu **anodd**.

Wrth egluro gair anodd, **amlygwch ef fel testun trwm** ac yna rhowch eich eglurhad o'r gair mewn blwch testun ar yr un dudalen.

Rhai enghreifftiau o Wybodaeth Hawdd ei Deall

Dyma rai enghreifftiau o Wybodaeth Hawdd ei Deall o safon:

Cyngor Celfyddydau Cymru: Cynllun Cydraddoldeb




Saesneg

<http://learningdisabilitywales.org.uk/pdfs/wg/arts-council-wales-2011.pdf>

Cymraeg

<http://learningdisabilitywales.org.uk/pdfs/wg/cyngor-celfyddydau-cymru-2011.pdf>

Llywodraeth Cymru: Rhoi Organau a Meinweoedd




Saesneg

<http://learningdisabilitywales.org.uk/pdfs/wg/organ-tissue-donation-2011.pdf>

Cymraeg

<http://learningdisabilitywales.org.uk/pdfs/wg/rhoi-organau-meinweoedd-2011.pdf>

Fforymau Amddiffyn Oedolion yng Nghymru: Eich amddiffyn rhag niwed a chael eich cam-drin



Saesneg

<http://learningdisabilitywales.org.uk/pdfs/wg/keeping-you-safe-2012.pdf>

Cymraeg

<http://learningdisabilitywales.org.uk/pdfs/wg/eich-amddiffyn-2012.pdf>



Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru



Llais anabledd dysgu
The voice of learning disability



Hawlfraint © Anabledd Dysgu Cymru / Mencap Cymru 2012

